

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 30 MEDI 2022

Yn
bressenol: Cynghorydd (Cadeirydd)

Cynghorwyr Cowan, Lewis, Mackie, Robson, John, Birch,
Andrews, Colbran, Harris a/ac Y Cynghorydd Wendy Lewis

11 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd G Jones.

12 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

13 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022 yn gofnod cywir.

14 : ADRODDIAD ARCHIFYDD MORGANNWG AR GYFER Y CYFNOD 1 MAI I 31 AWST

Rhodddwyd diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ar waith y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 31 Mai – 31 Awst 2022 i gyd wedi'u categorio yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Blynyddol.

Yn gryno, eglurodd yr Archifydd fod yr Archifau yn parhau i fod yn brysur gyda sawl prosiect gwahanol ar y gweill, o fewn y gwasanaeth ac mewn partneriaeth ag eraill. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu ceisiadau ariannu pellach lle bo'n briodol er mwyn galluogi'r gwasanaeth i barhau i ddatblygu a thyfu. Mae'r Archifau yn dal i fod yn bartner i ddewis i nifer o grwpiau a sefydliadau, ac mae hynny'n galonogol iawn.

Mae'r gwaith ar faterion adeiladu yn parhau i fod yn destun pryder, yn enwedig gyda'r costau cynyddol sy'n cael eu gweld ar draws y bwrdd ar gyfleustodau a deunyddiau. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.

Cynigiodd yr Archifydd ymweld â phob un o'r cyd-Awdurdodau i weld sut y gall y gwasanaeth weithio mwy gyda nhw.

Gofynnodd yr Archifydd i'r aelodau awgrymu lleoliadau cymunedol addas yn eu priod Awdurdodau a allai gynnal rhai arddangosfeydd dros dro o arddangosfa Gwaed Morgannwg.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ar yr adroddiad.

Gofynnodd aelodau am eglurder a ddylai'r cyfleusterau cymunedol ar gyfer arddangosfa Gwaed Morgannwg fod am ddim. Esboniodd yr archifydd y dylai gan nad oedd cyllideb ar ei chyfer, dim ond i arddangos rhai arddangosfeydd dros dro oedd hi. Cynigiodd yr aelodau rai awgrymiadau a chynnig cwrdd â'r Archifydd ar y pwnc hwn.

Cynigodd y Cynghorydd Cowan siarad â'r Swyddog Monitro yng Nghaerdydd i weld a oes modd gwahodd yr Archifydd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i weld pa waith y gellir ei wneud gyda'r gwasanaeth.

Nododd yr aelodau frwdfrydedd Ymchwilwyr Adamsdown ac roeddent yn falch o weld hyn gan blant ysgol mor ifanc.

Roedd yr aelodau yn falch o weld y wybodaeth ar y ffigyrau Cyfryngau Cymdeithasol ac i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r cynnydd sydyn.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

15 : BRIFFIO AR LAFAR - AAG

Rhoddodd yr Archifydd ddiweddariad ar lafar ar AAG, gan gynnwys rhywfaint o wybodaeth gefndirol i Aelodau newydd i'r Cyd-bwyllgor a hefyd ar y sefyllfa fwy diweddar gyda Tyne and Wear Archives and Museum Service wedi llwyddo i wyrddio penderfyniad y Swyddfa Brisio ar brisio rhai o'u hadeiladau.

Cafodd yr aelodau wybod ei fod wedi cymryd Tyne and Wear 12 mlynedd i hyn ddigwydd ac mae wedi cael ei gyflawni drwy her gyfreithiol. Mae'r penderfyniad wedi golygu bod gan rai o'u hadeiladau werth ardrethol o £10 bellach wrth iddyn nhw gael eu gweld fel adeiladau o werth cymdeithasol. Mae'r her wedi costio buddsoddiad sylweddol iddynt dros y 12 mlynedd ond mae eu costau wedi'u rhoi yn ôl iddynt.

Dywedodd yr Archifydd ei bod yn ymddangos bod awydd ymysg gwasanaethau archifau Cymru a Lloegr i wneud her ar y cyd. Dymunai'r Archifydd gynghori'r Aelodau nad oedd ganddi ffigyrau i'w darparu ar hyn o bryd ond wrth symud ymlaen, pe bai hyn yn cael ei ddilyn yna byddai angen gwneud buddsoddiad ariannol wrth symud ymlaen, ond byddai gwneud her ar y cyd yn golygu bod canran o'r costau cyfreithiol yn cael eu talu yn hytrach na'r cyfan.

Gofynnodd yr aelodau a oedd Tyne and Wear wedi cael eu taliadau AAG wedi'u hôl-ddyddio. Dywedodd yr Archifydd fod rhai wedi bod yn ôl i 2010 pan oedden nhw wedi lansio'r her, ond roedd rhai yn cael eu cynnal gan fod y swyddfa brisio yn herio'r penderfyniad.

16 : ADRODDIAD MONITRO MIS 4 2022/23

Cafodd yr Aelodau amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad a'i holl brif benawdau ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ar yr adroddiad.

Nododd aelodau ei bod yn dal yn gynnar yn y flwyddyn gyllideb ac roedden nhw'n obeithiol y byddai'r sefyllfa'n fwy positif wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen ac efallai y bydd rhywfaint o arian grant y gellir ei ennill.

Nododd yr aelodau hefyd nad oedd yn glir ar hyn o bryd beth fyddai cost y cyfleustodau dros fisoedd y gaeaf.

PENDERFYNWYD: i nodi'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar gyfer 2022/23 fel y nodir yn yr adroddiad.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

16 Rhagfyr 2022, 2.00pm ar Microsoft Teams

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm